



What is the Species Champion project?

Introduction

The Species Champion project raises awareness of biodiversity by providing the unique opportunity for each Member of the Senedd (MS) to adopt and champion a threatened species that's found in their constituency or region. It's run by Wales Environment Link (WEL), a network of environment charities which coordinates the project, with the individual environment charities acting as sponsors for different Species Champions.


It was first launched in 2016: the project was met by great enthusiasm, resulting in 60% of the Senedd signing up to be a Champion over the course of five years. It relaunched in 2021, for the Sixth Senedd term, with a renewed determination to ensure that Wales both sets ambitious nature targets and works hard to meet them, with the goal to significantly reduce or halt biodiversity loss by 2030.

Wales has shown great leadership on sustainability in the past and has declared a nature emergency. It's imperative that we, once again, show leadership on reviving our ecosystems and our climate to save nature. It is essential to take a worldwide approach to biodiversity because this crisis is not restricted by borders.

Biodiversity – what is it and why is it important?

Biodiversity describes the variety of animal and plant species, and includes the genetic diversity of species. Healthy biodiversity results in high functioning and healthy ecosystems. These provide benefits to society, such as clean water, air, healthy soils and carbon capture. These natural functions can provide nature-based solutions to the climate change crisis.

Wales Environment Link (Charity No.1022675) © 2021 Wales Environment Link











Unfortunately, wildlife in Wales has declined significantly in the last few decades and we are at a critical point. The State of Nature 2019 Report found that 666 of the 6,500 species assessed in Wales are threatened with being lost from here. This means 1 in 6 species is facing extinction in Wales. Ecosystems are fragile and complex, and they need to be resilient in order to function effectively. Ecosystems are made up of many inter-reliant species and habitats; every single one is essential, from cuddly to creepy crawly.

Legal obligations

In addition to the intrinsic value of nature and humans' need for it to survive, we also have legal duties to restore it. The UK failed to meet the 2020 biodiversity targets set by the Convention on Biological Diversity, making this project more important than ever.

The importance of protecting biodiversity has been acknowledged by the Environment (Wales) Act, with Section 6 placing a duty on all public authorities to maintain and enhance biodiversity. This is accompanied by a list of at-risk species requiring protection under Section 7. By signing up to this project, MSs will be helping to highlight the importance of Wales fulfilling these obligations. All species in this project are either on the Section 7 list or other corresponding 'red lists' of those that are most endangered and urgent to save.

The Species Champion project hopes to connect MSs with nature and give life (literally) to the broad concept of healthy biodiversity by giving every species a voice through their Champion. By helping us create a healthy, biodiverse land, we will create a Resilient and Globally Responsible Wales, as set out in the Wellbeing of Future Generations Act.


The global pandemic has demonstrated the importance of nature, not only for the planet's wellbeing, but also people's mental and physical wellbeing. It has also shown that, when we prioritise global momentum to a solution, we can do amazing things. We need to do the same for nature, or it will be too late.


How do species benefit us?

In short, humans wouldn't be able to exist without biodiversity. Beyond its innate value – from our food, to our water to our air – we simply need nature to survive. Protecting and restoring the natural world is critical to protecting our global climate. But it's difficult to visualise this on a large scale, so here's some examples of how individual species benefit our livelihoods.

From pollinators...

- All kinds of insects, including butterflies and bees, are pollinators, and an essential part of crop growth. Without pollinators, most of our food would simply not grow. In turn, many plant species wouldn't exist without pollinators spreading them.











To pest controllers…

- We have put so many pesticides into the environment, but the best pest control is nature. For example, the common toad is a gardener's best friend by performing effective – and free! – pest control of aphids. Pipistrelle bats can eat up to 3000 flies a night, including midges and mosquitos, which are all essential parts of the food web.
- Without many tiny species, we'd have nothing to recycle the nutrients from dung or other organic matter. Fungi, worms and unseen tiny organisms break them down and turn it into essential nutrients for soil, maintaining its fertility and again, enabling us to grow crops. These recyclers are vital to healthy soil.

To incredible carbon storage…

- Sphagnum moss plays a key role in storing carbon by preventing decay of dead plant matter and creating wetlands. This prevents the release of carbon into our atmosphere, mitigating climate change.
- Seagrass and kelp can actually hold more carbon than trees even can! Our underwater and land-based carbon stores are natural miracles which can do as much for climate change as any other form of carbon capture.
- We know that trees are key to preventing flooding and that without them, our urban areas will suffer more from the effects of climate change.

To cleaning rivers, planting forests and keeping everything in balance…

- Freshwater pearl mussels filter and clean water to provide healthy habitats for fish and crustaceans. Where freshwater pearl mussels are, other life will follow.
- Squirrels burying their nuts end up leaving quite a few in the ground, thus actually planting trees! Both creating more carbon capture and vital habitat, and even future food for them.
- Birds often do a little of everything, helping to pollinate plants too, and as flying pest controllers. They keep the food web in balance, ensuring that this delicate system keeps all parts afloat. And, whilst less glamorous, our raptors are essential for cleaning up roadkill.

We need to prioritise nature or we risk losing it


Morlo llwyd

© Neil Aldridge/The Wildlife Trusts


Madarch Cap Cwyr

Beth yw'r project Pencampwr Rhywogaethau?

Cyflwyniad

Mae'r project Pencampwr Rhywogaethau yn codi ymwybyddiaeth am fioamrywiaeth drwy ddarparu'r cyfle unigryw i bob Aelod o'r Senedd (AS) fabwysiadu a hyrwyddo rhywogaeth mewn perygl a welir yn eu hetholaeth neu ranbarth. Fe'i weithredir gan Gyswllt Amgylchedd Cymru (y Cyswllt), rhwydwaith o elusennau amgylcheddol sy'n cydlynu'r project, gyda'r elusennau amgylcheddol unigol yn gweithredu fel noddwyr ar gyfer gwahanol Bencampwyr Rhywogaethau.


Fe'i lansiwyd gyntaf yn 2016: cafodd y project groeso mawr ac o ganlyniad arwyddodd 60% o'r Senedd i fod yn Bencampwr dros gyfnod o bum mlynedd. Fe'i ail-lansiwyd yn 2021, ar gyfer chweched tymor y Senedd, gyda phenderfyniad o'r newydd i sicrhau bod Cymru'n gosod targedau byd natur uchelgeisiol ac yn gweithio'n ddygn i'w hateb, gyda'r nod o leihau colledion mewn bioamrywiaeth neu eu hatal yn llwyr erbyn 2030.

Mae Cymru wedi dangos arweinyddiaeth wych ar gynaladwyedd yn y gorffennol ac wedi datgan argyfwng byd natur. Mae'n hanfodol ein bod ni, unwaith eto, yn dangos arweinyddiaeth wrth adfer ein hecosystemau a'n hinsawdd i achub byd natur. Mae'n hanfodol mabwysiadu dull byd-eang o fynd i'r afael â bioamrywiaeth oherwydd nid ydy'r argyfwng hwn yn cael ei gyfyngu gan derfynau.

Bioamrywiaeth – beth ydy o a pham ei fod yn bwysig?

Mae bioamrywiaeth yn disgrifio'r amrywiaeth o rywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion, ac mae'n cynnwys amrywiaeth enetig rhywogaethau. O ganlyniad i fioamrywiaeth iach ceir ecosystemau iach sy'n gweithio'n dda. Mae'r rhain yn darparu buddion i gymdeithas, megis dŵr ac awyr lân, pridd iach a storio carbon. Fe all y swyddogaethau naturiol yma ddarparu atebion yn seiliedig ar fyd natur i'r argyfwng newid hinsawdd.

Wales Environment Link (Charity No.1022675) © 2021 Wales Environment Link




Wystrys brodorol


Y gardwenynen feinlais


Llyffant dafadennog



Y Wiwer Goch


Gwennol Ddu

Yn anffodus, mae bywyd gwyllt yng Nghymru wedi prinhau'n sylweddol yn yr ychydig o ddegawdau diwethaf ac rydym mewn sefyllfa argyfyngus. Yn (Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2019) Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2019 mae 666 o'r 6,500 o rywogaethau a aseswyd yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu. Mae hyn yn golygu bod 1 mewn 6 rhywogaeth yn wynebu difodiant yng Nghymru. Mae ecosystemau yn fregus ac yn gymhleth, ac mae angen iddyn nhw fod yn wydn er mwyn gweithredu'n effeithiol. Mae ecosystemau'n cynnwys llawer o rywogaethau a chynefinoedd sy'n ddibynnol ar ei gilydd, ac mae pob un ohonyn nhw yn hanfodol.

Goblygiadau cyfreithiol

Yn ychwanegol at werth cynhenid byd natur a'r angen iddo oroesi er lles pobl, mae gennym hefyd ddyletswyddau cyfreithiol i'w adfer. Methodd y DU ag ateb targedau bioamrywiaeth 2020 a osodwyd gan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, sy'n golygu bod y project hwn yn bwysicach nag erioed.

Mae pwysigrwydd gwarchod bioamrywiaeth wedi ei gydnabod gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), gydag Adran 6 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i gynnal a gwella bioamrywiaeth. Law yn llaw â hyn mae rhestr o rywogaethau mewn perygl y mae angen gwarchodaeth arnyn nhw o dan Adran 7. Wrth arwyddo i'r project hwn, bydd AS yn helpu i amlygu pwysigrwydd Cymru o ran gwireddu'r goblygiadau hyn. Mae'r holl rywogaethau ar y rhestr hon un ai ar restr Adran 7 neu 'restrau coch' cyfatebol eraill o'r rhai sydd fwyaf mewn perygl ac sydd angen eu hachub ar frys.

Mae'r project Pencampwr Rhywogaethau yn gobeithio cysylltu AS gyda byd natur a rhoi bywyd (yn llythrennol) i'r cysyniad eang o fioamrywiaeth iach drwy roi llais i bob rhywogaeth drwy gyfrwng eu Pencampwr. Wrth ein helpu i greu tir iach a bioamrywiol, byddwn yn creu Cymru Wydn a Chyfrifol yn Fyd-eang, fel y nodir yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r pandemig byd-eang wedi amlygu pwysigrwydd byd natur, nid yn unig er lles y blaned, ond hefyd er ffyniant meddyliol a chorfforol pobl. Mae hefyd wedi dangos, wrth i ni flaenoriaethau symudiad byd-eang i ddod o hyd i ateb, y gallwn gyflawni pethau rhyfeddol. Mae angen i ni wneud yr un fath i fyd natur, neu bydd yn rhy hwyr.

Sut mae rhywogaethau o fudd i ni?

Yn gryno, ni fyddai dynoliaeth yn gallu bodoli heb fioamrywiaeth. Y tu hwnt i'w werth cynhenid – o'n bwyd, i'n dŵr, i'n hawyr – yn syml, mae arnom angen byd natur i oroesi. Ond mae'n anodd dychmygu hyn ar raddfa fawr, felly dyma rhai enghreifftiau o sut all rhywogaethau unigol fod o fudd i'n bywoliaethau.

O beillwyr ...


- Mae pob math o bryfed, yn cynnwys gloÿnnod byw a gwenyn, yn beillwyr ac yn rhan hanfodol o dyfiant cnydau. Heb beillwyr, ni fyddai'r rhan fwyaf o'n bwyd yn tyfu. Yn eu tro, ni fyddai llawer o rywogaethau o blanhigion yn bodoli heb beillwyr i'w lledaenu.











I reolwyr plâu...

- Rydym wedi rhoi cymaint o blaladdwyr yn ein hamgylchedd, ond y rheolaeth pla gorau yw byd natur. Er enghraifft, y llyffant dafadennog yw ffrind gorau'r garddwr gan ei fod yn rheoli plâu fel y pryf gwyrdd – a hynny am ddim! Fe all yr ystlum lleiaf fwyta hyd at 3000 o bryfed y noson, yn cynnwys gwybed bach a'r mosgito, sydd i gyd yn rhannau hanfodol o'r we fwyd.
- Heb lawer o fân rywogaethau, ni fyddai gennym ddim byd i ailgylchu'r maethion o faw anifeiliaid neu mater organig arall. Mae ffwng, pryfed genwair a mân organebau anweledig yn eu torri i lawr a'u troi yn faethion hanfodol ar gyfer pridd, gan gynnal ei ffrwythlondeb ac unwaith eto, ein galluogi i dyfu cnydau. Mae'r ailgylchwyr yma'n hanfodol i bridd iach.

I storfa anhygoel o garbon...

- Mae mwsogl migwyn yn chwarae rôl allweddol mewn storio carbon drwy rwystro pydredd mater planhigion marw a thrwy greu gwlyptiroedd. Mae hyn yn rhwystro carbon rhag cael ei ollwng i'n hatmosffer, ac yn lliniaru newid hinsawdd.
- Mae morwellt a'r gwymon môr-wiail yn gallu cynnal mwy o garbon na hyd yn oed coed! Mae ein storfeydd o garbon o dan y môr ac ar dir yn wyrthiau naturiol a all wneud cymaint i newid hinsawdd ag unrhyw ffurf arall o storfa carbon.
- Rydym yn gwybod bod coed yn allweddol o ran rhwystro llifogydd ac hebddyn nhw, byddai ein hardaloedd trefol yn dioddef mwy o effeithiau newid hinsawdd.

I lanhau afonydd, plannu coedwigoedd a chadw cydbwysedd rhwng pob dim...

- Mae cregyn gleision perlog dŵr croyw yn hidlo ac yn glanhau dŵr i ddarparu cynefinoedd iach ar gyfer pysgod a chramenogion. Lle bynnag y ceir cregyn gleision perlog dŵr croyw, bydd bywyd arall yn dilyn.
- Wrth gladdu eu cnau, mae gwiwerod yn gadael llawer yn y ddaear, ac felly'n plannu coed! Fel hyn maen nhw'n creu mwy o allu i storio carbon a chynefin hanfodol, a hyd yn oed bwyd ar eu cyfer yn y dyfodol.
- Yn aml mae adar yn gwneud dipyn bach o bob dim, gan helpu i beillio planhigion hefyd, ac fel rheolwyr plâu sy'n hedfan. Maen nhw'n sicrhau cydbwysedd o fewn y we fwyd, a sicrhau bod y system fregus hon yn parhau i ffynnu. Ac yn sicr, mae adar ysglyfaethus yn hanfodol ar gyfer bwyta creaduriaid ochrau ffyrdd sydd wedi eu lladd gan gerbydau.

Mae angen i ni flaenoriaethu byd natur neu bydd posibilrwydd o'i golli